ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	20 Medi 2017
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Swyddog Cymorth Technegol (Trwyddedu) licensing@denbighshire.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Adolygu – Deddf Gamblo 2005 Datganiad Egwyddorion

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Cynghori Aelodau am y cynnydd a wnaed gyda'r adolygiad angenrheidiol o Ddatganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Gamblo 2005.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol â'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Datganiad Egwyddorion bob tair blynedd.

2.2 Mae adolygiad o'r datganiad cyfredol wedi cael ei lunio a chafodd ei roi gerbron yr Aelodau yn eu cyfarfod diwethaf ar 28 Mehefin.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Adran 349, Deddf Gamblo 2005

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Wrth bennu'r Datganiad Egwyddorion, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried amcanion trwyddedu'r Ddeddf Gamblo 2005 a 'Chanllaw i Awdurdodau Trwyddedu' y Comisiwn Gamblo.

4.2 Mae'r amcanion trwyddedu statudol yn cynnwys:

- Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu ecsploetiaeth yn sgil gamblo
- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i

gefnogi trosedd, a
- Sicrhau y cynhelir gweithgareddau gamblo mewn modd teg ac agored

4.3 Mae'r Datganiad Egwyddorion wedi cael ei datblygu gan y chwech Awdurdod Trwyddedu yng Ngogledd Cymru, gan ddod â chysondeb i faterion sy'n ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo.

5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

5.1 Yn eu cyfarfod ar 28 Mehefin 2017, cymeradwyodd yr Aelodau'r fersiwn drafft o'r polisi a rhoi'r awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad.

5.2 Ymgynghorwyd â'r Awdurdodau Cyfrifol a ganlyn:

- Y Comisiwn Gamblo
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Yr Awdurdodau Cynllunio
- Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach
- Gwasanaethau Plant
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi

5.3 Yn ogystal â'r uchod, mae'r polisi ar gael ar wefan y Cyngor am gyfnod o chwe wythnos.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn awdurdodi Swyddogion i barhau i weithio ar y fersiwn drafft o'r polisi drwy gasglu unrhyw ymatebion a dderbyniwyd a chyflwyno fersiwn terfynol i'r Aelodau i'w ystyried yn eu cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2017.